CYNGOR BRO LLANLLWNI

Cynhaliwyd y cyfarfod yn Neuadd Gymunedol Llanllwni, nos Lun 12 Chwefror 2018 am 8.00yh.

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.

PLISMONA
Cafwyd ymddiheuriadau gan Shanice Thomas ac Eleri Morgan. Soniwyd hefyd os oedd yna unrhyw fater angen ei drafod ymhellach i'r Clerc ei anfon ebost atynt.

Y CAE CHWARAE:
Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi'u harchwilio'n fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf gan Eric Davies. Nid oedd damweiniau i'w cofnodi ar y cae chwarae. Yr oedd Eric Davies â Dewi Davies wedi ymweld á John Davies ers y cyfarfod diwethaf ac wedi cytuno i ddechrau ar y gwaith yn y gwanwyn siwrnai byddai'r tywydd wedi sychu. Yr oedd angen iddynt ymweld â John Davies eto i arwyddo ac am Dystysgrif Yswiriant cyn dechrau ar gwaith.
Mae angen i'r Clerc gydnabod y chwe chais arall a diolch am ymgeisio ond bod y ceisiadau hynny heb fod yn llwyddianus.

Y GINIO FLYNYDDOL:
Cynhaliwyd y ginio yn y *Belle Vue* ar 12 Ionawr am 8yh.

UN LLAIS CYMRU:
Byddai Cyfarfod Sir Caerfyrddin yn cael ei gynnal ar 27 Chwefror yn Yr Hen Ficerdy, Sgwar Neuadd y Dref, Llanelli am 7yh.

MYNYDDOEDD CAMBRIAN:
Diwrnod Agored ar 14 Chwefror yn y Forest Arms Brechfa o 10yb – 12yp. Byddai Dewi Davies yn mynychu'r Cyfarfod.

SBWRIEL:
Yr oedd llawer o sbwriel wedi crynhoi ar ochr yr hewl o Gaerfyrddin i Llambed a mawr angen ei gasglu.

CEISIADAU
Penderfynwyd cefnogi Ambiwlans Awyr Cymru; Clefyd y Galon (Ardal Llanybydder).

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf.

Bydd y cyfarfod nesaf yn Neuadd Gymunedol Llanllwni ar 12 Mawrth 2018 am 8.00yh.